

Beth mae'r cwrs yn ei gynnig i mi?

Mae'r cwrs yn cynnig cyfle i ddysgu sgiliau TGCh trwy dasgau gwahanol. Nid oes elfen theori, bydd y gwersi i gyd ar y cyfrifiadur.

Ar y cwrs yma gall y disgyblion ychwanegu at yr hyn y meant wedi ei wneud ar gyfer y Cymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru Lefel 2 mewn TGCh ym mlwyddyn 9. Yn gyntaf rhaid cwblhau yr uned orfodol Uned 1 ac yna 2 uned arall er mwyn cyflawni cymhwyster OCR Cenedlaethol mewn TGCh sy'n gyfwerth ag un TGAU A* - C. Os maent yn gweithio'n effeithiol gallant gwblhau unedau ychwanegol a chael cymhwyster OCR Cenedlaethol mewn TGCh sy'n gyfwerth a dau TGAU A* - C.

Mae Rhagoriaeth yn cyfateb i radd A*/A TGAU, Teilyngdod yn cyfateb i radd B a Llwyddo yn cyfateb i radd C.

Sut fyddai'n dysgu?

Rhoddi'r cyfle i ddisgyblion ddysgu sgiliau newydd a'u defnyddio i gwblhau cyfres o aseiniadau ar y cyfrifiadur. Bydd rhaid cwblhau cyfres o aseiniadau ar dopigau megis prosesydd geiriau, cyhoeddwr bwrdd gwaith, cronfa ddata, taenlen, e-bost a'r wê sy'n ffurfio rhan o Uned 1 (Sgiliau TGCh ar Gyfer Busnes) a dwy uned ychwanegol – Uned 2 ac 23. Ar gyfer Uned 2 caiff y disgyblion gyfle i ddefnyddio meddalwedd Serif i greu tudalennau wê gan gynnwys animeiddiadau, fideos ac elfennau rhyngweithiol gan gynnwys ffurflenni adborth er mwyn creu tudalennau wê realistig. Ar gyfer Uned 23 bydd disgyblion yn dysgu sut i drimio, hollti a chyfuno clipiau fideo, testun a sain er mwyn creu fideo realistig.

Mae'r unedau ar gael yn cynnwys:

- Uned 2 - Creu Tudalennau Wê
- Uned 5 – Cyhoeddwr Bwrdd Gwaith
- Uned 6 – Dylunio a Defnyddio Taenlen
- Uned 7 – Dylunio a Defnyddio Cronfa Ddata
- Uned 8 – Arloesedd Technolegol ac E-gyfathrebu
- Uned 20 – Creu Animeiddiadau
- Uned 22 – Creu Sain
- Uned 23 – Creu Fideo

Bydd disgyblion yn cael 2 awr yr wythnos trwy gydol blwyddyn 10 ac 11 er mwyn cwblhau'r unedau.

Sut fyddai'n cael fy asesu?

Asesir gwaith disgyblion gan yr ysgol a chaiff y gwaith ei gymedroli gan arholwr allanol.

Cofiwch!

- Nid oes arholiad terfynol, mae'n 100% gwaith cwrs.
- Peidiwch disgwyl cael defnyddio'r we yn aml yn y cwrs yma.
- Nid yw'r cwrs yn rhyddhau disgyblion rhag gwneud yr Uned Sgiliau Allweddol TGCh o fewn y BAC.

**Am wybodaeth pellach cysylltwch â:
Mrs. Cathryn Roberts-Williams**

